Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 13.09.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# NEWYDDION: Gŵyl y Banc i'w chynnal ar 19 Medi 2022

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Gŵyl y Banc ychwanegol ar 19 Medi 2022, i nodi angladd y Frenhines Elizabeth II. I ddarllen y datganiad, ewch i:

https://bit.ly/3RH6aDI

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau i'r cyhoedd a busnesau ar y cyfnod o alaru cenedlaethol, sydd i'w gweld ar:

https://bit.ly/3RIYFwc

# CEFNOGAETH: Cymorth biliau ynni

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU becyn cymorth biliau ynni ar 8 Medi 2022. Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys y gefnogaeth arfaethedig i fusnesau, ar gael ar:

https://www.gov.uk/government/publications/energy-bills-support

# CYFLE: Cynllun Gwella Platfform Digidol

Mae cyfle i fusnesau, yn y sectorau lletygarwch a bwyd a diod yng Ngwynedd, i gymryd rhan mewn cynllun newydd gan Gyngor Gwynedd i wella eu Platfform Digidol. Bydd y prosiect yn cydweithio gyda Cyflymu Cymru i Fusnesau er mwyn adnabod anghenion digidol busnes, ac yna'n cynnig cefnogaeth mentora a hyfforddiant i uwchraddio sgiliau digidol y busnes. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3AuERGR

Neu e-bostiwch: PlatfformDigidol@gwynedd.llyw.cymru

# GOHIRIO DIGWYDDIAD: Cymru Greadigol – Galeri 14 Medi 2022

Mae Cymru Creadigol wedi gohirio eu digwyddiad fin nos yn Galeri Caernarfon ar y 14 Medi 2022, a byddant yn aildrefnu'r digwyddiad ar gyfer dyddiad arall yn fuan.

# CYMORTH: Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm

Mae Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm Llywodraeth Cymru yn cynnig arweiniad cyfrinachol, un-i-un, cymorth a chyngor am bolisïau a grantiau, gan gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), iechyd a lles anifeiliaid, cadw cofnodion a mwy. Mae gwybodaeth ar gael ar:

https://llyw.cymru/gwasanaeth-cysylltwyr-fferm

# DYSGU: Cyfrif Dysgu Personol

Mae’r Cyfrif Dysgu Personol yn fenter wedi’w lunio i helpu busnesau i recriwtio talent newydd a goresgyn prinder sgiliau heddiw ac yn y dyfodol. Gall y rhaglen helpu cyflogwyr, nid yn unig i wella sgiliau eu staff drwy gynnig cyrsiau a chymwysterau hyblyg, ond hefyd i gael gafael ar unigolion sy’n dymuno newid gyrfa a chamu i lefel uwch o ran eu gwaith. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/cymorth-recriwtio/cyfrif-dysgu-personol

# DIGWYDDIAD: Atebion Glas – Tuag at fframwaith ar gyfer Moroedd Iwerddon a Cheltaidd iach, cynaliadwy a gwydn 16 Medi 2022

Bydd Prifysgol Bangor yn cynnal digwyddiad hybrid ar ddydd Gwener 16 Medi 2022 (9:00am–3:30pm) i drafod cydweithrediad yn y dyfodol ar themâu newid yn yr hinsawdd, cynaliadwyedd, gwydnwch a chymunedau arfordirol. Bydd y gweithdy’n dod â chynrychiolwyr o’r byd academaidd, diwydiant, cymunedau a’r llywodraeth ynghyd. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3eM5izi

# DIGWYDDIAD: Parhad Busnes – Ymgynghoriad a Gweithdy 16 Medi 2022

Mae Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cyngor Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru i ddatblygu templed a chanllaw Cynllun Parhad Busnes newydd ar gyfer busnesau bach i chanolig a sefydliadau gwirfoddol. Cynhelir digwyddiad ymgynghori a gweithdy ar-lein ar 16 Medi 2022 (10:00am-11:00am), i roi trosolwg i sefydliadau o beth yw parhad busnes

yn ogystal â chanfod barn am y templed drafft. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3QFwUDl

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru